Rhaglen
Addysg
Wicipedia

# Y Maes Llafur:

# Aseiniaid 12-wythnos i ysgrifennu erthygl ar Wicipedia

**Sefydliad Wicimedia**

## Adnoddau hyfforddi defnyddiol

### 1. Hyfforddiant Ar-lein: Wicipedia fel Arf Dysgu

Rydym yn awgrymu'n gryf bod pob hyfforddwr yn cwblhau'r gyfeiriadaeth ar-lein ar gyfer addysgwyr cyn cynllunio maes llafur. Mae'n gyflwyniad i ddiwylliant a rheolau Wicipedia, yn nodi hanfodion golygu, ac yn eich tywys drwy aseiniad Wicipedia nodweddiadol fel yr un yma.

http://enwp.org/WP:EDUCATOR

Neu gallwch droi at ein hadran 'Cymorth' ar Wicipedia Cymraeg:

https://cy.wikipedia.org/wiki/Wicipedia:Cymorth





Marc Haynes, Cydlynydd Wicipedia o fewn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

### 2. Hanfodion Hyfforddwyr: Sut i ddefnyddio Wicipedia fel arf dysgu.

Mae'r llyfryn yma yn rhoi sylw i strwythur a pholisïau allweddol Wicipedia y bydd angen ichi eu deall: arferion gorau ar ddethol erthyglau a gweithio gyda'r gymuned, a strwythurau graddio enghreifftiol.

http://education.wikimedia.org/instructorbasics



Wicipewyr brwd yn rhoi trefn ar erthyglau ''Seren Gomer'' yn Llyfrgell Abertawe.

### 3. Astudiaethau Achos: Sut mae athrawon prifysgol yn dysgu gyda Wicipedia.

Mae pymtheg o ddarlithwyr o chwe gwlad wahanol yn ymddangos yn y llyfryn hwn, gyda phob un yn egluro sut mae ef neu hi wedi defnyddio Wicipedia yn yr ystafell ddosbarth neu sut aethant ati i raddio'r aseiniad. Mae fersiwn y we o'r llyfryn hefyd yn cynnwys dolenni i'r meysydd llafur a thaflenni ar gyfer yr aseiniad.

http://education.wikimedia.org/casestudies



Rheolwr Wicimedia UK yng Nghymru (Robin Owain) yn cyflwyno i holl staff TG Coleg Llandrillo-Menai.



Aelodau o'r Gymdeithas Frenhinol, Llundain, ar sesiwn hyfforddi sgiliau Wicipedia.

# Defnyddio'r maes llafur yma

## Cyn ichi ddechrau

Daw'r ddogfen maes llafur enghreifftiol yma yn drydedd mewn cyfres o lyfrynnau ar sut i ddefnyddio Wicipedia fel arf dysgu.

Cyn ichi durio i fanylion y maes llafur, mae'n bosib yr hoffech edrych ar ein llyfrynnau Cymraeg "Hanfodion Hyfforddwyr " ac "Astudiaethau Achos" i gael syniad gwell o arferion gorau, beth gall amcanion dysgu ac aseiniadau eu cyflawni, a sut y gallech chi raddio aseiniad Wicipedia. Fe'ch anogir yn gryf hefyd i fynd drwy'r gyfeiriadaeth ar-lein (Saesneg) ar gyfer addysgwyr.

Mae'r ddogfen hon yn cynnig maes llafur enghreifftiol tymor cyfan ar gyfer aseiniad ysgrifennu o faint ar Wicipedia, gan gorffori llawer o'r arferion gorau ar gyfer prosiectau o'r fath. Gallwch ei ddefnyddio fel dechreubwynt ar gyfer eich aseiniadau Wicipedia eich hunain, neu ddethol darnau i'w haddasu ar gyfer eich cwrs chi.

Mae'r maes llafur enghreifftiol yma ar gyfer aseiniad 12-wythnos i ysgrifennu erthyglau Wicipedia. Am feysydd llafur sy'n defnyddio aseiniadau Wicipedia eraill, gweler y llyfryn Astudiaethau Achos.

## Deall yr eiconau a ddefnyddiwn

### Taflenni

Drwy'r llyfryn hwn byddwn yn cyfeirio at daflenni y dylech eu rhannu i'ch myfyrwyr. Mae pob un o'r taflenni yma yn ddolenni ar fersiwn y we o'r llyfr (Saesneg) hwn:

http://education.wikimedia.org/syllabus

WP:EDUCATORS

### Llwybrau brys

Mae'r llwybrau brys i dudalennau pwysig ar Wicipedia yn cael eu rhestru drwy'r maes llafur yma fel | llwybr brys WP:EDUCATORS

I ddefnyddio un ohonynt, rhowch y llwybr brys yn y bar chwilio ar Wicipedia Saesneg a chlicio 'enter'. Rydym wrthi fel lladd nadroedd yn cyfieithu llawer o'r dogfennau hyn i'r Gymraeg, ond mae llawer ohonynt ar hyn o bryd yn Saesneg.

### Cerrig milltir

Yn ôl hyfforddwyr profiadol mae'n hanfodol bod myfyrwyr fydd yn golygu Wicipedia yn gyfforddus nid yn unig gyda chystrawen wici, ond hefyd gyda'r gymuned. Bydd gofyn am gerrig milltir yn helpu'r myfyrwyr i gynefino gyda'r safle a'u hatal rhag llusgo'u traed. Fel arfer mae'r hyfforddwyr sydd ddim yn sefydlu'r cerrig milltir yn cael profiadau gwael gyda'u haseiniadau.


# Llinell amser maes llafur 12-wythnos

Mae aseiniadau Wicipedia ar eu gorau pan gânt eu cyflwyno ar gychwyn y tymor, am fod angen i'r myfyrwyr ddod i adnabod y dechnoleg. O wybod pam maent yn gwneud y gwaith paratoi, daw dysgu hanfodion Wicipedia yn berthnasol.

Ceisiwch integreiddio'ch aseiniad Wicipedia gyda themâu'r cwrs. Sicrhewch fod rhwyddineb wrth drin gwahanol gyfryngau ac adeiladu gwybodaeth yn faterion sy'n cael sylw gydol y cwrs.

## Hyfforddiant ar-lein ar gyfer myfyrwyr

Mae'r hyfforddiant ar-lein (Saesneg) ar gyfer myfyrwyr yn gyflwyniad i gymuned Wicipedia a sut mae'n gweithio, yn arddangos hanfodion golygu ac yn arwain y myfyrwyr drwy eu golygiadau cyntaf, gan gynnig cyngor ar ddethol erthyglau a drafftio adolygiadau, ac yn dangos sut i ddod o hyd i gymorth wrth ddechrau arni. Mae'n cymryd rhyw awr ac yn gorffen gyda cham ardystio y gallwch ei ddefnyddio i wirio bod myfyrwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant | llwybr brys WP:STUDENT




http://enwp.org/WP:STUDENT

## Wythnos 1

### Hanfodion Wicipedia

Wrth gyflwyno'ch dosbarth a mynd dros y maes llafur, cofiwch adael i'r myfyrwyr wybod y byddent yn gweithio ar Wicipedia y tymor hwn. Gall hyn fod yn amser da i siarad am ragdybiaethau sydd ganddynt ynglŷn â Wicipedia a gweld os oes unrhyw un wedi gwneud gwaith golygu'n barod.

#### Yn y dosbarth

» Trosolwg o'r cwrs

» Cyflwyniad i sut bydd Wicipedia yn cael ei ddefnyddio yn y cwrs

Taflen: llyfryn "Croeso i Wicipedia" (ar gael ar-lein neu mewn print drwy Sefydliad Wicimedia))

#### Aseiniad (i'w gyflawni Wythnos 2)

» Dechreuwch y gyfeiriadaeth ar-lein ar gyfer myfyrwyr. Yn ystod yr hyfforddiant yma byddwch yn creu cyfrif, gwneud golygiadau mewn pwll tywod ac yn dysgu rheolau sylfaenol Wicipedia. |llwybr brys WP:STUDENT

### Eich tudalen gwrs ar Wicipedia

Cyn i'r dosbarth ddechrau, bydd angen ichi lunio tudalen gwrs ar Wicipedia. Fel rheol mae tudalennau cwrs yn cael eu defnyddio i egluro – i'r myfyrwyr a'r gymuned Wicipedia – manylion eich aseiniadau Wicipedia, i gadw cofnod o ba fyfyrwyr sydd yn y dosbarth, a pha erthyglau maent yn gweithio arnynt, ac i ofyn cwestiynau a thrafod problemau. Am fanylion ar sut i fynd ati i lunio tudalen gwrs, gweler y llyfryn "Yr Hanfodion: Beth i'w wneud cyn i'r tymor ddechrau" neu ewch i dudalen "*Wikipedia:Course page*" ar Wicipedia Saesneg. | *llwybr brys* WP:COURSE

## Wythnos 2

### Hanfodion golygu

Mae'n bwysig bod y myfyrwyr yn dechrau golygu Wicipedia yn ddi-oed er mwyn iddynt gynefino gyda chystrawen MediaWiki (y "côd-wici"). Fel hyfforddwr, bydd gennych sawl opsiwn o ran dysgu'r deunydd technegol yma. Gallwch ei ddysgu eich hunain, gwahodd Llysgennad Wicipedia eich campws a/neu eich Wicipedwyr lleol i wneud hynny, gysylltu â chanolfan dysgu a thechnoleg ar eich campws a gofyn am gymorth ganddyn nhw, neu gysylltu gyda Rheolwr Wicimedia Cymru (info@wikimedia.org.uk). Gall myfyrwyr hefyd gwblhau hyfforddiant ar-lein safonol. Pa bynnag fodd y dewiswch chi wneud hyn, rydym yn awgrymu bod eich myfyrwyr yn dysgu hanfodion golygu, anatomi erthygl, a sut i ddethol erthyglau sy'n addas ar gyfer yr aseiniad yma.

#### Yn y dosbarth

» Hanfodion golygu

» Anatomi erthyglau Wicipedia, beth sy'n gwneud erthygl dda, sut i wahaniaethu rhwng erthyglau da a rhai gwael

» Awgrymiadau ar ddod o hyd i'r erthyglau gorau i weithio arnyn nhw fel aseiniadau dosbarth

Taflenni: taflen "Defnyddio tudalennau sgwrs" a llyfryn "Gwerthuso ansawdd erthygl Wicipedia"

#### Aseiniad (i'w gyflawni Wythnos 3)

Cwblhewch yr hyfforddiant ar-lein ar gyfer myfyrwyr. Yn ystod yr hyfforddiant yma byddwch yn creu cyfrif, golygu mewn pwll tywod a dysgu rheolau sylfaenol Wicipedia. | llwybr brys WP:STUDENT

» Lluniwch dudalen defnyddiwr ac ychwanegwch eich enw i'r rhestr o fyfyrwyr ar y dudalen gwrs.

» I ymarfer golygu a chyfathrebu ar Wicipedia, cyflwynwch eich hunan i unrhyw Wicipediwr sy'n helpu'ch dosbarth (er enghraifft Llysgennad Wicipedia eich Coleg), a gadewch neges i gyd-fyfyriwr ar eu tudalen sgwrs defnyddiwr.

**Carreg filltir**

✓ Mae gan bob myfyriwr gyfrif defnyddiwr Wicipedia ac maent wedi'u rhestru ar dudalen y cwrs.

## Wythnos 3

### Archwilio maes y testun

Mae'n hollbwysig bod myfyrwyr yn dechrau ymchwilio i'w pwnc dewisiol Wicipedia yn gynnar yn y tymor. Mae dod o hyd i destunau sydd â'r cydbwysedd cywir o ddiffyg sylw blaenorol ar Wicipedia a llenyddiaeth sydd ar gael i'w defnyddio i ehangu'r erthygl neu greu un newydd yn gallu bod yn beth anodd. Fel dewis arall, gallwch ofyn i fyfyrwyr gynnig rhestr o bynciau i sgwennu amdanynt, mae'n bosib yr hoffech baratoi rhestr ymlaen llaw o erthyglau priodol sydd ddim yn bodoli neu sydd heb eu datblygu'n ddigonol. Mae hyn yn gofyn am fwy o waith paratoi ond mae'n ffordd i gael myfyrwyr i fynd ati i ymchwilio ac ysgrifennu erthyglau yn gynt.

#### Yn y dosbarth

Taflenni: argraffwch y taflenni "Advice for choosing articles" and "How to get help"

#### Aseiniad (i'w gyflawni Wythnos 4)

- Gwerthuswch yn feirniadol erthygl Wicipedia sydd eisoes yn bod ac sy'n berthnasol i'r dosbarth, a gadewch awgrymiadau ar gyfer ei gwella ar dudalen sgwrs yr erthygl.
- Ymchwiliwch a rhestrwch 3–5 erthygl ar eich tudalen defnyddiwr y gallech weithio arnynt fel eich prif brosiect. Gofynnwch am sylwadau gan eich hyfforddwr.

### Gofyn am gymorth

Pan fo pethau'n mynd o'u lle – mae erthyglau myfyrwyr yn cael eu herio, mae myfyrwyr yn tynnu golygyddion eraill i'w pen, neu eich bod chi neu'r myfyrwyr yn ansicr ynghylch sut i ddatrys problem – dylech ofyn am gymorth yn syth. Os yw Wicipedwyr profiadol yn gweithio gyda'ch dosbarth (er enghraifft Hyfforddwr Ar-lein), mae'n syniad troi atyn nhw yn y lle cyntaf.

Mae'n bosib postio problemau a chwestiynau ar yr "Hysbysfwrdd Addysg" (sy'n bodoli ar y wici Saesneg yn unig ar hyn o bryd) | llwybr brys `WP:ENB`

Am ganllaw, naill ai i chi neu i'r myfyrwyr, ar sut i ddechrau arni, ewch i Wicipedia:Y Caffi | llwybr brys `WP:CAFFI` sy'n fan cyfeillgar ar gyfer golygyddion newydd. Mae'r gyfeiriadaeth ar-lein yn tynnu sylw ar fannau eraill ble mae cymorth ar gael.

## Wythnos 4

### Defnyddio ffynonellau

Wrth iddynt ddechrau defnyddio ffynonellau i wella erthyglau Wicipedia, mae'n hynod bwysig bod myfyrwyr yn deall polisïau Wicipedia ar lên-ladrad a throsedd hawlfraint. Yn gyffredinol mae myfyrwyr yn gwybod bod copïo paragraffau neu frawddegau cyfan o ffynonellau yn llên-ladrad. Ond mae llawer yn anwybodus ynglŷn â llên-ladrad mwy cynnil, fel defnyddio brawddegau byrrach heb eu priodoli neu ddechrau o destun sydd wedi ei gopïo a'i aralleirio gan adael y strwythur a'r ystyr fel y mae (h.y. aralleirio clòs). Canlyniad tebygol unrhyw ffurf o lên-ladrad neu drosedd hawlfraint yw tynnu gwaith myfyrwyr oddi ar Wicipedia.

#### Yn y dosbarth

Taflenni: "Cyfeirio ar Wicipedia" a "Deall polisi hawlfraint Wicipedia"

#### Aseiniad (i'w gyflawni Wythnos 5)

- Ychwanegwch 1–2 frawddeg o wybodaeth newydd at erthygl Wicipedia; cefnogwch hynny gyda dyfyniad i ffynhonnell briodol, fel cyfeiriadaeth.

#### Ar gyfer yr wythnos nesaf

- Hyfforddwr i werthuso'r detholiadau o erthyglau sydd gan y myfyrwyr, erbyn wythnos 5.

### Chi yw'r arbenigwr

Bydd cymhwyso eich arbenigedd chi eich hunain i'r sylw mae Wicipedia yn ei roi i'ch maes yn allweddol i aseiniad llwyddiannus.

Rydych yn deall y cyd-destun deallusol ehangach ar gyfer testunau unigol, fe welwch chi'r diffygion sydd ar Wicipedia, rydych yn gwybod sut i ddarganfod llenyddiaeth berthnasol, ac rydych yn gwybod pa destunau y dylai'ch myfyrwyr fedru eu trafod. Felly mae'ch arweiniad ar ddethol erthyglau a dod o hyd i ffynonellau yn hanfodol o ran llwyddiant eich myfyrwyr, ac er gwella Wicipedia.

## Wythnos 5

### Dewis erthyglau

Erbyn yr wythnos hon, yn ddelfrydol, rydych chi wedi gwerthuso dewis y myfyrwyr o erthyglau ac wedi rhoi adborth iddyn nhw, gan eu harwain i ddewis erthyglau sy'n briodol ar gyfer yr aseiniad. Am fod myfyrwyr yn aml yn aros tan y funud olaf cyn gwneud eu gwaith ymchwil, neu'n dewis ffynonellau sy'n anaddas ar gyfer Wicipedia, rydym yn awgrymu'n gryf bod myfyrwyr yn llunio llyfryddiaeth o ddeunyddiau i'w defnyddio wrth olygu'r erthygl, y medrwch chi a Wicipedwyr eraill ei hasesu.

#### Yn y dosbarth

» Trafodwch yr ystod o destunau y bydd eich myfyrwyr yn gweithio arnynt a strategaethau o ran ymchwilio ac ysgrifennu amdanynt.

#### Aseiniad (i'w gyflawni Wythnos 6)

» Dewiswch erthygl i weithio arni. Dilëwch y gweddill o'ch tudalen defnyddiwr. Ychwanegwch eich erthygl i dudalen cwrs eich dosbarth.

» Lluniwch lyfryddiaeth o ffynonellau perthnasol dibynadwy a'i phostio i dudalen sgwrs yr erthygl rydych yn gweithio arni. Dechreuwch ddarllen y ffynonellau.

## Wythnos 6

### Cychwyn sgwennu

Unwaith i fyfyrwyr gael rhywfaint o afael ar eu testunau a'r ffynonellau maent am eu defnyddio i ysgrifennu amdanynt, mae'n amser dechrau ysgrifennu ar Wicipedia. Gallwch ofyn iddynt neidio i mewn yn syth a golygu'n fyw neu ddechrau yn eu pyllau tywod. Mae rhywbeth i'w ddweud o blaid ac yn erbyn y ddwy ffordd o weithio.

Manteision ac anfanteision pyllau tywod: mae pyllau tywod yn gwneud i fyfyrwyr deimlo'n ddiogel am fod modd golygu heb bwysau'r byd a'r betws yn darllen eu drafftiau, neu Wicipedwyr eraill yn newid eu gwaith. Fodd bynnag, mae golygiadau pwll tywod yn cyfyngu ar nifer o agweddau unigryw defnyddio Wicipedia fel arf dysgu, pethau fel ysgrifennu ar y cyd a drafftio cynyddol. Nid ydym yn argymell treulio mwy nag wythnos neu mewn pwll tywod.

**Manteision ac anfanteision golygu byw:** Mae golygu byw yn brofiad cyffrous i'r myfyrwyr am eu bod yn gallu gweld y newidiadau maent yn eu gwneud i erthyglau yn syth, ac yn cael profiad o'r broses o gyd-olygu drwy'r aseiniad. Fodd bynnag, am fod golygyddion newydd yn aml, heb fwriadu gwneud hynny, yn torri rheolau Wicipedia, weithiau mae ychwanegiadau'r myfyrwyr yn cael eu cwestiynu neu eu dileu.

#### Yn y dosbarth

» Siaradwch am ddiwylliant ac arferion Wicipedia, ac ail-ymweld â'r cysyniad o byllau tywod a sut i'w defnyddio, os dewisiwch.

» Sesiwn holi ac ateb gyda'r hyfforddwr a/neu Lysgenhadon Wicipedia'r Coleg ar ryngweithio ar Wicipedia a mynd ati i ysgrifennu.

#### Aseiniad (i'w gyflawni Wythnos 7)

» Os ydych yn cychwyn erthygl newydd, ysgrifennwch fersiwn gryno 3–4 paragraff o'ch erthygl – gyda dyfyniadau – yn eich pwll tywod. Os mai gwella erthygl sy'n bod eisoes ydych chi, ysgrifennwch fersiwn gryno sy'n adlewyrchu beth fydd cynnwys yr erthygl unwaith iddi gael ei gwella, a phostiwch hwn ynghyd â disgrifiad byr o'r hyn sydd gennych mewn golwg ar dudalen sgwrs yr erthygl.

» Dechreuwch weithio gyda'ch cyd-fyfyrwyr a golygyddion eraill i roi sglein ar eich erthygl gychwynol gan gywiro unrhyw broblemau.

» Daliwch ati gyda'r gwaith ymchwil mewn paratoad ar gyfer y gwaith o ehangu'ch erthygl.

**Carreg filltir**

✓ Mae pob un o'r myfyrwyr wedi dechrau golygu erthyglau neu ddrafftiau ar Wicipedia.

## Wythnos 7

### Symud erthyglau i'r prif ofod

Pa un ai a yw myfyrwyr yn dechrau erthyglau newydd neu'n ehangu erthyglau sy'n bod eisoes, mae'n hanfodol eu bod yn dechrau gweithio'n fyw ar Wicipedia cyn gynted ag y bo modd. Mae fersiynau cryno o erthyglau newydd (ac erthyglau byrion sy'n bod eisoes sydd wedi'u ehangu i bum gwaith eu maint) yn fannau cychwyn gwych i ddechrau gweithio'n fyw yn y prif ofod.

**Yn y dosbarth**

Taflen: "Mentro allan o'ch pwll tywod"

**Aseiniad (i'w gyflawni Wythnos 8)**

- Symudwch erthyglau pwll tywod i'r prif ofod.
- Opsiynol: Ar gyfer erthyglau newydd neu waith ehangu cymwys i egin erthyglau, lluniwch "fachyn" un-frawddeg, ei enwebu ar gyfer "Wyddoch chi", a monitro'r enwebiad am unrhyw broblemau gaiff eu hadnabod gan olygyddion eraill. Nodyn: ar Wicipedia Saesneg mae DYK; os mai'r Wicipedia rydych yn ei defnyddio, yna dylid hepgor y rhan hon. Neu ymgeisiwch am statws 'Erthygl Ddethol'.
- Dechreuwch ehangu'ch erthygl yn driniaeth gynhwysfawr o'r testun.

### Prosesau Wicipedia

Mae'n bosib y bydd erthyglau gan fyfyrwyr sydd wedi ei datblygu'n dda yn addas i gael eu cyflwyno ar gyfer "Wyddoch Chi", adran ar brif dudalen Wicipedia sy'n rhoi sylw i gynnwys newydd. Mae'n debyg mai cyflwyno erthyglau i WCh fydd cysylltiad mawr cyntaf eich dosbarth gyda phrosesau erthyglau tu-ôl-i'r-llen. Rydym yn argymell yn gryf eich bod un ai'n rhoi tro ar hyn eich hunan ymlaen llaw, neu eich bod yn gweithio'n agos gyda Wicipedwyr mwy profiadol i gynorthwyo'ch myfyrwyr i fordwyo drwy'r broses hon yn ddi-rwystr. Os yw'ch myfyrwyr yn gweithio ar set o erthyglau perthynol, mae'n bosib y bydd hi'n syniad da iddynt gyfuno enwebiadau aml-erthygl ar fachyn unigol; mae hyn yn fodd i atal gwaith eich myfyrwyr rhag llethu'r broses neu godi gwrychyn y golygyddion sy'n gwneud y gwaith cynnal a chadw.

## Wythnos 8

### Adeiladu erthyglau

Ar y pwynt hwn, bydd llawer o fyfyrwyr wedi 'dallt hi', a bydd ganddynt ddealltwriaeth eglur o sut i symud yn eu blaenau a **mynd â'r maen i'r wal.** Y peth pwysicaf rwan yw rhoi adborth, ar y gwaith maent yn ei wneud – beth sydd ar goll, pa ffynonellau y gellid eu defnyddio i'w wella, a yw'r cydbwysedd yn briodol – ac ar sut i gadw o fewn canllawiau Wicipedia, yn enwedig Safbwynt Niwtral | llwybr brys WP:NIWTRAL | llwybr brys WP:DYG

Mae'n bosib y bydd myfyrwyr eraill wedi baglu gyda rhyw elfen o osod eu gwaith cyntaf yn fyw ar Wicipedia. Dyma'r pwynt allweddol o ran adnabod ble mae myfyrwyr yn mynd i drafferthion – ymateb negyddol gan olygyddion eraill, problemau technegol, problemau gyda dod o hyd i ffynonellau da a'u defnyddio'n briodol, llên-ladrata, neu rywbeth arall. Dyma amser da i gael cip olwg (o leiaf) ar beth mae pob myfyriwr wedi ei gyfrannu hyd yn hyn.

**Gweithdy yn y dosbarth neu du allan i'r dosbarth**

- Dangos sut i lwytho delweddau i Gomin Wicimedia ac ychwanegu delweddau i erthyglau.
- Rhannu profiadau a thrafod problemau.

Taflenni: "Ychwanegu delweddau i Wicipedia: Canllaw ar sut i gyfrannu cynnwys i Gomin Wicipedia" a "Gwerth uso ansawdd erthygl Wicipedia" (a ddosbarthwyd yn wreiddiol yn wythnos 2)

**Aseiniad (i'w gyflawni Wythnos 9)**

- Ehangwch eich erthygl yn driniaeth gynhwysfawr o'r testun.
- Dewiswch ddwy erthygl gan fyfyrwyr eraill yn eich dosbarth. Yn y man byddwch yn cyd-adolygu a'u golygu. (Does dim angen dechrau ar y gwaith yma eto.)

Wythnos 9

## Derbyn a rhoi adborth

Mae cydweithio'n elfen hanfodol o gyfrannu at Wicipedia. I rai myfyrwyr, bydd hyn yn digwydd yn ddigymell; bydd eu tesun yn denu diddordeb Wicipedwyr a fydd yn cynnig syniadau, golygiadau, neu hyd yn oed gyfraniadau sylweddol i erthyglau'r myfyrwyr. Gall Lysgenhadon ar-lein Prifysgolion eraill (sy'n dangos diddordeb cryf yn y pynciau y mae'r myfyrwyr yn gweithio arnynt) fod yn gydweithwyr gwych. Mewn llawer o achosion, fodd bynnag, ychydig o olygu digymell fydd i'w weld cyn diwedd y tymor. Yn ffodus, mae dosbarth llawn o gyd-ddysgwyr yn gronfa wych o gyd-adolygwyr. Manteisiwch ar hyn drwy ofyn i fyfyrwyr adolygu erthyglau ei gilydd yn fuan wedi i ddrafftiau llawn gael eu cyhoeddi, i roi digon o amser i'r myfyrwyr weithredu ar y cyngor a ddaw.

### Yn y dosbarth

» Fel grŵp, ydy'r myfyrwyr wedi cynnig awgrymiadau o ran gwella un neu ddwy o erthyglau'r myfyrwyr, gan osod yr esiampl o ran yr hyn sy'n ddisgwyliedig mewn erthygl wyddoniadurol o safon.

### Aseiniad (i'w gwblhau Wythnos 10)

» Adolygwch ddwy o erthyglau eich cyd-fyfyrwyr. Gadewch awgrymiadau ar dudalen sgwrs yr erthygl.

» Copi-olygwch y ddwy erthygl a adolygwyd.

**Carreg filltir**

✓ Mae pob un o'r erthyglau wedi eu hadolygu gan eraill. Mae pob myfyriwr wedi adolygu erthyglau eu cyd-fyfyrwyr.

## Graddio erthyglau Wicipedia

Mae'r fenter i wella ansawdd pob erthygl wedi annog Wicipedwyr nifer o ieithoedd i gyflwyno system raddio sy'n disgrifio'r twf o Eginyn i Erthygl Ddethol. Ar y Wicipedia Saesneg: gwnewch bopeth i annog eich myfyrwyr i ddod i adnabod y system raddio yma, ac i'w defnyddio wrth iddynt gyd-adolygu gwaith ei gilydd. Dylai myfyrwyr nodi nad yw erthyglau dosbarth-B a dosbarth-C ar Wicipedia Saesneg yr un peth â gwaith dosbarth "B" a'r "C" traddodiadol yn y byd addysgol. Dynodir Erthyglau Da ac Erthyglau Dethol ar Wicipedia dim ond drwy broses heriol o gyd-adolygu, a dim ond myfyrwyr sydd ymhell ar y blaen ddylai ystyried cyflwyno eu gwaith i'r prosesau yma. Dyma'r graddfeydd:

| | |
|---|---|
| FA | Mae'r erthygl yn ateb gofynion llinynau mesur 'Featured Article' \| shortcut WP:FACR WP:FACR ac wedi llwyddo yn y broses ymgeisio \| shortcut WP:FAC Ychydig iawn o erthyglau sy'n cyrraedd y safon hon. |
| GA | Mae'r erthygl yn ateb gofynion llinynau mesur Erthygl Dda ('Good Article') \| shortcut WP:GACR ac wedi llwyddo yn y broses ymgeisio \| shortcut WP:GAN Good articles Gall dosbarthiadau sydd wedi ymroi am dymor cyfan, o bosib, gyrraedd y safon yma. Ceisiwch adael digon o amser i adolygu a gwella'r GAs gan y gall gymryd rhai wythnosau gael eu hadolygu. |
| B | Mae'r erthygl hon bron a'i 'gorffen', heb lawer o ddiffygion. O ran myfyrwyr prifysgol, gellir dweud fod y lefel yma'n gwbwl bosibl ar gyfer gweithwyr caled, a thestunau sydd ddim yn rhy gyffredinol. |
| C | Erthygl swmpus, ond peth cynnwys pwysig ar goll. Ychydig gwell na'r norm, ond gellir gwell! |
| 'Start' | Cychwynwyd yr erthygl ond mae llawer o agweddau ar goll ac angen rhagor o ffynhonellau cadarnach. Dyma'r safon arferol I'r rhan fwyaf o fyfyrwyr sydd heb dderbyn cyngor yr hyfforddwr a mynd yr ail gam. |
| 'Stub' | "Eginyn" ar y Wici Cymraeg. Dwy neu dair paragraff ar y mwya gyda disgrifiad cyffredinol yn unig o'r pwnc. |

## Wythnos 10

### Ymateb i adborth

Erbyn hyn, dylai myfyrwyr fod wedi cynhyrchu erthyglau sy'n agos iawn at fod yn gyflawn. Dyma'r cyfle i'w hannog i fentro'n ddyfnach i mewn i Wicipedia a'i safonau a'i gerrig milltir. Mae'n debyg eich bod wedi trafod llawer o egwyddorion craidd Wicipedia - a materion perthynol rydych am roi sylw iddynt - ond nawr eu bod wedi cael profiad uniongyrchol o sut mae Wicipedia'n gweithio, dyma amser da i droi'n ôl at destunau fel niwtraliaeth, rhwyddineb wrth drin gwahanol gyfryngau, ac impact a chyfyngiadau Wicipedia. Meddyliwch am wahodd siaradwr gwadd, cynnal trafodaeth banel, neu hyd yn oed drafodaeth agored rhwng y dosbarth am beth mae'r myfyrwyr wedi ei wneud hyd yn hyn a pham.

#### Yn y dosbarth

» Trafodaeth agored ar y cysyniad o niwtraliaeth, llythrennedd cyfryngau, ac impact a chyfyngiadau Wicipedia.

#### Aseiniad (i'w gwblhau Wythnos 11)

» Golygwch eich erthygl gan roi sylw i adborth eich cyd-olygyddion. Paratowch ar gyfer trafodaeth yn y dosbarth am eich profiad golygu ar Wicipedia.

## Wythnos 11

### Cyflwyniadau dosbarth

Gall gofyn i fyfyrwyr feddwl yn benodol am eu profiadau ar Wicipedia, drwy gyflwyniadau a/neu draethodau myfyriol, fod o gymorth i'w holi a chadarnhau beth maen nhw wedi ei ddysgu am Wicipedia'n benodol, ac yn fwy cyffredinol am lythrennedd cyfryngau ac ymchwil. Hefyd gall aseiniadau o'r fath fod yn lens ar gyfer gwerthuso a rhoi gradd i'w gwaith Wicipedia yn enwedig pan maent yn cynnwys crynodebau amlwg neu ddogfennaeth o'r hyn wnaeth y myfyrwyr neu beth geision nhw wneud ar Wicipedia,

#### Yn y dosbarth

» Mae myfyrwyr yn gwneud cyflwyniadau i'r dosbarth ar eu profiadau o olygu Wicipedia.

#### Aseiniad (i'w gwblhau Wythnos 12)

» Ychwanegwch y manylion terfynol i'ch erthygl Wicipedia.

» Ysgrifennwch draethawd myfyriol (2-5 tudalen) ar eich cyfraniadau i Wicipedia.

## Wythnos 12

### Mae pob aseiniad i'w cyflwyno

Gwych! Cyrhaeddwyd pen y daith!

#### Carreg filltir

✓ Mae'r myfyrwyr wedi gorffen yr holl waith ar Wicipedia sydd i gael ei raddio, ac wedi cyflwyno traethodau myfyriol.

## Graddio

Dyma gynllun graddio sylfaenol ar gyfer aseiniad Wicipedia. Am fwy o syniadau ar sut i raddio aseiniadau Wicipedia, ewch i'r adran cyfarwyddyd graddio yn y llyfryn "Hanfodion Hyfforddwyr " ('Instructor Basics').

### Strwythur Graddio Enghreifftiol

Wrth raddio aseiniad "ymchwilio ac ysgrifennu erthygl", bu'r canlynol yn llwyddiannus yn y gorffennol:

| | |
|---|---|
| 5% yr un (x4) | Gradd am gymryd rhan mewn ymarferion Wicipedia cynnar |
| 10% | Cymryd rhan mewn blog dosbarth neu drafodaethau dosbarth |
| 10% | Cyd-adolygu a gweithio gyda gweddill y dosbarth |
| 50% | Ansawdd eich prif gyfranaidau ar Wicipedia |
| 10% | Traethawd myfyriol |
| Gradd y myfyriwr | |

Rhaglen
Addysg
Wicipedia

## Ydych chi'n barod i ymuno â Rhaglen Addysg Wicipedia?

**Mae rhaglenni addysg i'w cael eisoes mewn sawl gwlad, ac mae gwirfoddolwyr Wicimedia wrthi'n creu rhaglenni newydd pob tymor. Mewn gwledydd ble mae Rhaglen Addysg Wicipedia *(Wikipedia Education Program)* ar waith, efallai bod Cenhadon Wicipedia gwirfoddol ar gael i gynnig cymorth i'ch myfyrwyr ac i chithau wrth ichi ddysgu beth yw'r ffordd orau i'ch dosbarht gyfrannu at Wicipedia.**

**Ymunwch â ni! Am ragor o wybodaeth, ewch i http://education.wikimedia.org**

Mae pob delwedd o Gomin Wicimedia dan drwydded CC-BY-SA neu barth cyhoeddus oni nodir fel arall. Mae'r cynnwys sydd i'w gael yma ar gael da dan Drwydded Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 (<http://en.wikipedia.org/wiki/ >Wikipedia:CC-BY-SA) neu unrhyw fersiwn ddiweddarach.

CC BY SA

Tynnwyd y ffotograffau ar dudalen 2 gan: Marc Haynes, Robin Owain, Aled Powell a Katie Chan.

Nid yw nodau masnach a logos Sefydliad Wicimedia (Wikimedia Foundation) ac unrhyw fudiad arall wedi eu cynnwys dan delerau'r drwydded Comin Creu (''Creative Commons''). Mae Sefydliad Wicimedia, Wicipedia, Comin, MediaWici, Wiciadur, Wicilyfrau, Wicidestun, Wicinewyddion, Wiciddyfynu, Wiciysgol, Wicifywyd, Wicidata, Wicidaith, a Meta-Wici yn aros i'w cofrestru fel nodau masnach neu maent yn nodau masnach cofrestredig Sefydliad Wicimedia.

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n tudalen Polisi Nodau Masnach, <http://wikimediafoundation.org/wiki/ >Trademark_Policy (Saesneg).

Am gwestiynau eraill ynghylch ein telerau trwyddedu neu bolisi nodau masnach, danfonwch e-bost i legal@wikimedia.org

Yn cynnwys 10% o ffibrau ol-ddefnyddiwr wedi ei aligylchu, proses sy'n rhydd o glorin elfennol, a gynhyrchwyd gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy